Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflawni ein llwybr carbon isel hyd at 2030

## Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o'n hymgynghoriad **Cyflawni ein llwybr carbon isel hyd at 2030**.
Mae'r ddogfen ymgynghori lawn ar gael yn
**www.llyw.cymru/ymgynghoriadau**



## Yr her... a'r cyfle



**Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd. Mae llawer o'r pethau rydyn ni'n ei wneud – o yrru ceir i wresogi ein cartrefi, o greu cynnyrch i gynhyrchu bwyd – yn creu carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill. Erbyn hyn, mae tystiolaeth wyddonol gadarn yn nodi bod y nwyon hyn yn effeithio ar ein hinsawdd a bod hyn yn gwneud ein tywydd yn fwy eithafol ac yn fwy anodd ei ragweld. Mae pethau fel tywydd poeth, stormydd a llifogydd yn effeithio ar ein hiechyd, ar ein cartrefi ac ar ein heconomi. Felly rhaid i ni leihau faint o'r nwyon hyn rydyn ni'n eu creu.**

Nid ni ydy'r unig wlad sy'n gwneud hyn: mae gwledydd ar draws y byd yn cydnabod bod lleihau nwyon tŷ gwydr nid yn unig yn lleihau effaith tywydd eithafol yn y dyfodol, ond hefyd yn arwain at fanteision fel swyddi newydd, manteision o ran y farchnad fyd-eang, aer a dŵr glanach, a gwell iechyd. Mae'r gwledydd hyn yn newid ac yn buddsoddi mewn ffyrdd glanach o gynhyrchu ynni, systemau trafnidiaeth a ffyrdd mwy effeithlon o fyw a gweithio.


Gall pob un ohonom helpu i leihau nwyon tŷ gwydr ac osgoi'r effeithiau gwaethaf i ni a'n plant, oherwydd rydyn ni i gyd yn gwneud dewisiadau bob diwrnod ynghylch sut rydyn ni'n teithio, beth rydyn ni'n ei fwyta ac a ydyn ni am ailgylchu ein gwastraff. Yn llai aml, byddwn yn gwneud dewisiadau ynghylch pa gwmni ynni byddwn ni'n ei ddefnyddio gartref ac i ble byddwn ni'n mynd ar ein gwyliau.

## At beth rydyn ni'n ei anelu?




**Yn ôl yr arbenigwyr, rhaid i ni leihau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% yn 2050 i osgoi'r effeithiau gwaethaf i ni, ein plant a'r tu hwnt. Rydyn ni wedi penderfynu gosod nifer o dargedau i'n helpu ni i gyrraedd hynny, gan gynnwys targed i leihau ein nwyon tŷ gwydr 45% erbyn 2030. Byddwn yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gadarsnhau'r targedau hyn yn nes ymlaen eleni.**

Rydyn ni wedi bod yn ceisio lleihau'r nwyon hyn ers tro yn barod, ac rydyn ni wedi llwyddo i'w cwtogi o **tua 15%**. Nawr, rhaid i ni feddwl am sut mae lleihau'r nwyon hyn **30%** arall dros y deng mlynedd nesaf fwy neu lai.



## Ein syniadau ar gyfer cyrraedd targed 2030

**Bydd yn rhaid i eraill wneud rhai pethau, er enghraifft, syniad Llywodraeth y DU i roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio ceir sy'n llosgi tanwyddau ffosil. Ond, mae llawer o bethau y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud hefyd. Rydyn ni wedi rhestru ein syniadau isod, a byddem yn falch o glywed eich barn.**

### Pŵer

**Mae bron i 35%** o'n nwyon tŷ gwydr yn dod o losgi tanwyddau ffosil i gynhyrchu ynni. Mae gorsaf bŵer glo fawr yn Aberddawan a gorsaf bŵer nwy fawr ym Mhenfro. Mae un o'n syniadau yn ymwneud â rheoli pa bryd rydyn ni'n cymryd tanwyddau ffosil o'r ddaear yn y lle cyntaf. Rydyn ni hefyd am i lawer mwy o ynni ddod o ffynonellau adnewyddadwy, fel paneli solar a thyrbinau gwynt, ac i bobl leol gael mwy o berchnogaeth dros y rhain. Bydd hyn yn lleihau nwyon tŷ gwydr ac yn dod â chymunedau lleol at ei gilydd.

- Mwy o reolaeth dros ba bryd mae tanwyddau ffosil yn cael eu tynnu o'r ddaear ac yn cael eu llosgi
- Cynhyrchu llawer mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy, fel paneli solar a thyrbinau gwynt
- Sicrhau bod pobl leol yn berchen ar ragor o ffynonellau ynni adnewyddadwy

### Trafnidiaeth

Mae nwyon tŷ gwydr yn cael eu cynhyrchu pan fyddwn ni'n llosgi tanwyddau ffosil i symud pobl a nwyddau hefyd - mae hyn yn cyfrif am **tua 15% o'r cyfanswm**. Mae ein cerbydau'n dod yn fwy effeithlon, ond rydyn ni'n defnyddio mwy arnyn nhw. Felly, ar y cyfan, dydyn ni ddim wir wedi lleihau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth. Mae un o'n syniadau'n cynnwys datblygu rhwydwaith gwefru ar gyfer cerbydau trydan a meddwl am sut gallwn ni annog pobl i newid eu cerbyd petrol neu ddisel am un trydan. Rydyn ni hefyd am wneud bysiau a thacsis yn ddi-garbon, ac i bobl gerdded a beicio llawer mwy na'r hyn maen nhw'n ei wneud heddiw. Bydd y syniadau hyn yn lleihau nwyon tŷ gwydr ac yn gwella ansawdd aer a'n hiechyd.

- Datblygu rhwydwaith gwefru ar gyfer cerbydau trydan
- Meddwl am sut gallwn ni annog pobl i newid eu cerbyd petrol neu ddisel am un trydan
- Gwneud bysiau a thacsis yn ddi-garbon
- Helpu pobl i gerdded a beicio llawer mwy na'r hyn maen nhw'n ei wneud heddiw
- Deall sut mae ein cyflymder gyrru yn effeithio ar y nwyon tŷ gwydr y mae ein cerbydau'n eu cynhyrchu

## Adeiladau

**Mae tua 10%** o'n nwyon tŷ gwydr yn dod o wresogi a goleuo ein cartrefi. Rydyn ni'n ystyried gosod safonau effeithlonrwydd ynni uwch ar gyfer adeiladau newydd a phrosiectau adnewyddu. Mae llawer iawn o'n tai yn eithaf hen, a gall fod yn anodd eu cadw'n gynnes. Felly, un o'n syniadau ydy helpu pobl i newid eu cartrefi i'w gwneud yn gynhesach, yn fwy cyfforddus ac yn rhatach i'w rhedeg. Gallai hyn gynnwys pethau fel inswleiddio waliau a gosod mesurau atal drafftiau ar y ffenestri. Bydd hyn yn lleihau nwyon tŷ gwydr a biliau ynni. Rydyn ni hefyd am wneud ein hadeiladau'n fwy cynaliadwy i ddechrau, drwy feddwl am ble gallwn ni ddefnyddio pren o Gymru pan fyddwn ni'n eu hadeiladu.

- Safonau effeithlonrwydd ynni uwch ar gyfer adeiladau newydd a phrosiectau adnewyddu
- Helpu pobl i newid eu cartrefi er mwyn iddyn nhw fod yn rhatach i'w rhedeg - gall hyn gynnwys pethau fel inswleiddio waliau a gosod mesurau atal drafftiau ar y ffenestri
- Gwneud ein hadeiladu yn fwy cynaliadwy i ddechrau drwy feddwl am y deunyddiau rydyn ni'n eu defnyddio i'w hadeiladu

## Amaethyddiaeth, tir a gwastraff

Mae sut rydyn ni'n cynhyrchu bwyd yn cyfrif am **tua 10%** o'n nwyon tŷ gwydr, ac mae cig fel cig eidion a chig oen yn creu mwy na ffrwythau a llysiau. Mae'n amser da i ni feddwl am y cymorth rydyn ni'n ei roi i ffermwyr, gan ein bod ni bellach yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein tir – boed yn laswelltir, yn gnydau neu'n goedwig – yn amsugno nwyon tŷ gwydr o'r aer felly rydyn ni am blannu llawer mwy o goed a rheoli ein mawndir yn well. Mae nifer fechan o nwyon tŷ gwydr yn dod o dirlenwi – **tua 2%**. Un o'n syniadau ydy helpu'r economi drwy ddefnyddio rhagor ar y pethau rydyn ni'n eu taflu er mwyn creu cynnyrch newydd. Bydd hyn yn lleihau nwyon tŷ gwydr ac yn creu swyddi newydd.

- Annog ffermwyr i leihau nwyon tŷ gwydr drwy ail-ddylunio ein system o gymorth ariannol
- Plannu llawer mwy o goed
- Rheoli ein mawndir yn well
- Helpu ein heconomi i greu cynnyrch newydd drwy ddefnyddio mwy ar y pethau rydyn ni'n eu taflu

## Y sector cyhoeddus

Dim ond **tua 1%** o'n holl nwyon tŷ gwydr mae rhedeg ein hadeiladau cyhoeddus, fel ysgolion, prifysgolion, ysbytai a swyddfeydd y cyngor yn ei greu. Mae rhywfaint o nwyon tŷ gwydr yn cael eu cynhyrchu o ganlyniad i ddefnyddio ceir, faniau a loriau sbwriel hefyd. Y prif beth y gallwn ni ei wneud yn y sector cyhoeddus ydy bod yn esiampl i weddill y wlad – dyna pam ein bod ni wedi cyhoeddi ein huchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn ddi-garbon erbyn 2030.

- Cefnogi'r sector cyhoeddus i sefydlu llinell sylfaen a monitro'r cynnydd tuag at ddod yn ddi-garbon
- Defnyddio trydan adnewyddadwy yn unig erbyn 2020 a, phan fo hynny'n bosibl, defnyddio gwres carbon isel yn unig erbyn 2030
- Prynu cerbydau nwyddau ysgafn a cheir isel iawn eu hallyriadau yn unig erbyn 2025, a phan fo hynny'n bosibl, prynu cerbydau nwyddau trwm isel iawn eu hallyriadau yn unig erbyn 2030

## Technoleg

Rydyn ni am ddefnyddio syniadau a thechnoleg newydd a chyffrous i'n helpu ni i leihau nwyon tŷ gwydr. Un o'n syniadau ydy edrych yn fwy manwl ar sut gallwn ni ddefnyddio technoleg o bosibl i ddal nwyon tŷ gwydr wrth iddyn nhw gael eu cynhyrchu mewn gorsafoedd pŵer a gweithfeydd diwydiannol mawr a'u dal o dan y ddaear. Bydd yn rhaid i ni wneud hyn, yn ôl yr arbenigwyr, os ydyn ni am gyrraedd y targed o **80% erbyn 2050**.

## Busnes a sgiliau

Bydd rhoi'r syniadau hyn ar waith yn golygu newidiadau mawr i'n heconomi. Rydyn ni am weithio gyda busnesau i leihau eu nwyon tŷ gwydr a'u helpu i fanteisio ar y cyfleoedd a fydd ar gael. Rydyn ni hefyd am helpu pobl i feithrin y sgiliau newydd y bydd eu hangen arnyn nhw wrth i'r swyddi newid.

## Ein syniadau eraill a fydd o ddiddordeb i chi o bosibl

- Cefnogi cynllunio ynni yn rhanbarthol ac yn lleol
- Cefnogi arloesi mewn cynnyrch ynni newydd, prosesau a gwasanaethau
- Ystyried sut gallai arloesi ein helpu ni i leihau nwyon tŷ gwydr
- Cynnwys pobl a sefydliadau i gyrraedd ein targedau ar gyfer nwyon tŷ gwydr
- Deall sut mae adeiladau masnachol yn defnyddio ynni a pha nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu cynhyrchu
- Edrych yn fanwl ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â lleihau nwyon tŷ gwydr yn ein system wresogi
- Ystyried sut gallwn ni gefnogi'r diwydiannau sy'n creu'r rhan fwyaf o nwyon tŷ gwydr y tu hwnt i 2020
- Ystyried sut gallem ni ddefnyddio gwres gwastraff sy'n cael ei greu gan brosesau diwydiannol
- Sefydlu grŵp i edrych ar leihau nwyon tŷ gwydr ym maes diwydiant

## Beth ydych chi'n meddwl am ein syniadau?

Cwblhewch ein harolwg byr yn **www.llyw.cymru/ymgynghoriadau**.

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35488